

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynheliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **2 Hydref 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-10/17: Presennol

Cadeirydd ; Cyng Sian Williams;

Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Henry Jones

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-10/17 Ymddiheuriadau:

Cyng Elizabeth George; ; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Eirwyn Williams; Cyng Elizabeth Reagan.

3-10/17: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-10/17 Cadarnhau cofnodion mis Medi

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

5-10/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Llywodraeth Cymru: Clystyru: cefnogaeth ariannu ar gael 2017-18 (ebost 1 Medi 2017). Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod arian i fyny at £5000 ar gael ar gyfer prosiect yn ymwneud â chlystyru. Yn anffodus roedd y dyddiad cau ar 13 Hydref ac ni fyddai modd i'r Cyngor weithredu ar hyn onibai bod estyniad amser sylweddol er mwyn rhoi amser i drafod posibiladau gyda Chynghorau Lleol eraill. Roedd y Clerc wedi codi y mater yma gyda Phwyllgor Ardal Un Llais Cymru ac wedi cael ei cefnogaeth i sgwennu am hyn gan gynnwys y ffaith nad oedd meini prawf wedi cael eu gosod ar gyfer gwneud cais. Roedd y Clerc hefyd wedi cael cyfle i godi y mater gyda'r Gweinidog Mark Drakeford AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Lleol) a oedd yn anerch Cynhadledd Un Llais Cymru ar 30 Medi 2017.
- b. Un Llais Cymru – ebost 29 Medi 2017 – Canllaw i Brif Gynghorau – ymgynghoriad yn rhedeg tan 21 Rhagfyr 2017 ar ddrafft dogfen sydd wedi ei baratoi i swyddogion prif gynghorau ar gyfer sut mae cynnal arolwg o'u cymunedau. Mae hefyd wedi'i ddrafftio i roi gwybodaeth i bartion â buddiant, a chynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn arbennig, ynglŷn â'r modd y dylai'r broses weithredu – roedd yn bwysig felly bod y Cyngor Tref yn ystyried y canllaw. Byddai ar agenda cyfarfod mis Tachwedd.

6-09/17: Gohebiaeth

- a. Yswiriant y Cyngor 2017-18

Roedd llythyr wedi ei dderbyn dyddiedig 4 Medi 2017 gan BHIB, yn cadarnhau y byddant yn sgwennu at y Cyngor tua tair wythnos cyn dyddiad adnewyddi y polisi ar gyfer y flwyddyn nesaf

ac yn cadarnhau ar wahan i gynydd bach yn IPT (Treth Yswiriant) y byddai y premiwm adnewyddu ar yr un lefel ag eleni

- b. Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian (ebost 18/9/2017) Gwahoddiad i godi materion i'w trafod.

Penderfyniad: i ofyn y cwestiynnau canlynol:

- A yw Arriva yn medru sicrhau ei bod yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog?
- A yw Arriva am ystyried cael un trêrn cyflym y dydd nôl ac ymlaen o'r Gogledd i'r De?, - roedd hyn wedi cael ei godi o'r blaen.
- A yw Arriva am ystyried cynnig gwasaneth arlwyo ar y trêrn rhwng Pwllheli a Machynlleth?
- Nid oes gan y stesions trêrn rhwng Pwllheli a Machynlleth beiriannau tocynnau – ac mae'n anghyfleus nad oes modd printio tocynnau wedi ei prynu o'r We neu medru ei lawrlwytho ar app. A oes modd datrys hyn?
- A oes mod di Network Rail osod arwyddion i'r stesion drên yng Nghriccieth?

- c. Llythyr gan Grŵp Mynediad Dwyfor (31/8/2017)

Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol gan y Cyngor.

Penderfyniad: Yn unol â pholisi y Cyngor, dim cefnogi y cais am gyfraniad ariannol.

- d. Llythyr gan Glwb Hoci Pwllheli (ebost 6/9/2017)

Derbyniwyd cais am gefnogaeth a chyfraniad ariannol ar gyfer adeiladu cae pob tywydd newydd ym Modegroes.

Penderfyniad: Yn unol â pholisi y Cyngor, dim cefnogi y cais am gyfraniad ariannol.

- e. Cyngor Gwynedd (31 Awst) – nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod neges wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn nodi bod dwy fainc ar Ffordd Porthmadog yn pydru ac hefyd yn gofyn a fyddai modd paentio meinciau o gwmpas y dre. Cytunwyd i rhoi y mater ar agenda mis Hydref. Diolchwyd i Criccieth yn ei Blodau am y gwaith roedd wedi cymeryd lle i baentio potiau blodau a rhai meinciau yn y dref yn ddiweddar.

Penderfyniad : y byddai y Cyng Sian Williams a'r Cyng Robert Cadwalader yn gwneud arolwg o feinciau y dref ac yn adrodd nôl i gyfarfod mis Tachwedd.

7-10/17: Ceisiadau Cynllunio

- a. C17/890/35/CT Gwaith ar goed o fewn Ardal Cadwraeth; Morannedd, 5 Tanygrisiau, Criccieth LL52 0DL

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

- b. C17/0912/35/AM Ail gyflwyniad o gais a ganiatawyd o dan C12/0476/35/AM ar gyfer dymchwel adeiladau presennol a chodi 7 uned preswyl – Station Bakery, Stryd Fawr, Criccieth, LL 52 0RN. Cais a dderbyniwyd ers cyhoeddi yr agenda ac angen penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

- c. C17/0935/35/LL Newidadau i'r estyniad cefn a newid y tô, ail gynllunio'r bae presennol a darparu ffenestr bae newydd ar y llawr cyntaf a tynnu simne - 2, Rhos Ffynnon, Criccieth LL52 0AY. Cais a dderbyniwyd ers cyhoeddi yr agenda ac angen penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

8-10/17 Archwiliad Allanol 2016/17

Cylchredwyd gohebiaeth y BDO dyddiedig 11 Medi 2017 yn nodi ei bod wedi cwblhau'r archwiliad uchod ar 8 Medi 2017. Yn unol â'r gofynion roedd y Clerc wedi postio y rhybudd o ganlyniad yr archwiliad ar hysbysfwrdd y Cyngor ar 13 Medi am gyfnod o 14 diwrnod a bod y cyfrifon ar gael i etholwyr lleol eu harchwilio. Nid oedd unrhyw faterion wedi dod i sylw yr archwilwyr a fyddai angen cyhoeddi adroddiad ychwanegol. Cyflwynwyd y ffurflen flynyddol i'r Cyngor i'w chymeradwyo a'i derbyn gan y Cyngor.

Penderfyniad: Cymeradwywyd a derbyniwyd y ffurflen flynyddol a oedd wedi ei gylchgredeg i aelodau cyn y cyfarfod

9-10/17 Apwyntio archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2017/18 a phennu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr is-bwyllgor Cyllid

Penderfyniad: i apwyntio Mr John Roberts yn Archwilydd Mewnol, ar y termau a nodwyd yn y drafft llythyr apwyntio oedd wedi ei gylchredeg

I gynnal yr Is-Bwyllgor Cyllid ar nos Iau 9 Tachwedd am 7 yn Siambr y Cyngor.

10-09/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth – cofnodion cyfarfod 13 Medi 2017 ac Adroddiad ar y Diwrnod Cymunedol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2017.

Penderfyniad: Cymeradwywyd y cofnodion.

Adroddiad ar y Diwrnod Cymunedol:

Mynychwyd y Diwrnod gan gannoedd o drigolion y dref ac ymwelwyr. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i fedru arddangos syniadau a chynlluniau drafft ar gyfer y Cynllun Cymunedol a oedd wedi'u paratoi gan bensaer ac i bawb gael dweud eu dweud, gan gynnwys derbyn syniadau eraill ar gyfer Cynllun Cynllun Cymunedol Criccieth, er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y dref. Cafwyd cyfle i rhoi sylwadau ar yr arddangosfa ac hefyd i gwblhau a phostio holiadur. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Cyngor, y Cyng Sian Williams ac esboniodd mai *"gweithio mewn partneriaeth gyda thrigolion y dref a grŵpiau cymunedol a busnesau lleol yw dymuniad y Cyngor gyda'r nôd o wneud Criccieth yn le hyd yn oed gwell i fyw ac ymweld ag ef."* Diolchodd am y nawdd gan Grŵp Cynefin, Hafod y Gêst i gynnal y diwrnod, ac hefyd i Harlech Foods, Caffi Idris, cigydd K E Taylor a Hufenfa De Arfon am gyfrannu tuag at y lluniaeth ac i bawb am eu cefnogaeth. Diolchodd hefyd i bawb yn y Neuadd Goffa am eu gwaith.

Agorwyd y drysau i bawb o bob oedran a chafwyd adloniant hwyliog i blant gan y cyflwynydd teledu adnabyddus Anni Llŷn. Braff oedd cael syniadau ganddynt am bethau cyffrous i'w datblygu

Roedd hefyd yn gyfle gwych i ddod â'r holl gymdeithasau/clybiau at eu gilydd i arddangos y bwrlwm o weithgaredd sy'n mynd ymlaen yn y dref. Cafodd y stondinwyr sylwadau cadarnhaol iawn a nifer wedi derbyn cefnogaeth o'r newydd. Roedd ugain o stondinau amrywiol yn bresennol,

Y cam nesaf oedd asesu'r sylwadau a'r ymatebion i'r holiadur ac i baratoi adroddiad a fyddai'n gosod y llwybr ar gyfer y dyfodol. Roedd y diwrnod yn un hynod lwyddiannus.

Roedd y diwrnod wedi cael sylw yn y Wasg : Cambrian News a'r Herald. Bydd darn yn cael ei gyflwyno ar gyfer Bwletin Un Llais Cymru ac hefyd i bapur lleol y Ffynnon.

Roedd amcanion y diwrnod a'r ffaith bod y Cyngor yn creu Cynllun Cymunedol yn cydgorffio yn dda gyda'r negesueon oedd yn cael eu cyflwyno yng Nghynhadledd Un Llais Cymru ar 30 Medi – gan gynnwys rôl bwysig Cyngorau Dref a Chymuned yn gwneud gwahaniaeth yn gwasanaethu eu cymunedau a'r disgwyliadau cynyddol i drosgwyldo asedau a chyfrifoldebau o'r Cyngorau Sir i lefel mwy lleol.

11-10/17 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod diwethaf roedd y Cyngor yn anhapus gyda'r sefyllfa ynglŷn â'r adeilad ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymchwilio i'r sefyllfa ymhellach gan fod posibilid bod hawl gan Gyngor Criccieth a thrigolion y dref ar yr adeilad. Hefyd, cytunwyd y dylid edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer lleoliadau i'r Cyngor gwrdd yn y dyfodol. Roedd y Cadeirydd, sef Cyng Sian Williams, Cyng Robert Cadwalader a'r Clerc wedi cwrdd gyda swyddog Cyngor Gwynedd i asesu addasrwydd Encil y Coed ar gyfer cyfarfodydd o'r Cyngor. Y farn oedd nad oedd yn addas o gofio hefyd na fyddai modd cael gofod i gelfi, gwaith papur ac eiddo arall y Cyngor Tref..

Roedd gohebiaeth wedi'i dderbyn gan Gyngor Gwynedd a'i gylchredeg yn egluro ei safbwynt am y trafodaethau a'r gohebu a oedd wedi bod gyda'r Cyngor Tref ynglŷn â symud y Llyfrgell.

Cyflwynodd y Cyng Robert Cadwalader ffrwyth ei waith ymchwil a oedd yn gosod allan cais cryf o rhan safle gyfreithiol a moesol i'r Cyngor fedru gwneud hawl ar yr adeilad yn hytrach na'i fod yn cael ei werthu gan Gyngor Gwynedd. Byddai colli yr adeilad yn amddifadu adnoddau i drigolion presennol Criccieth ac i genedlaethau o drigolion y dyfodol ac yn codi cwestiwn am sut fyddai hyn yn gwireddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig o ystyried hanes y rhodd i'r dref a buddsoddiad gan drigolion lleol yn yr adeilad.

Diolchwyd i'r Cyng Robert Cadwalader am ei waith.

Penderfyniad y dylai y Cyng Sian Williams, y Cyng Elizabeth George a'r Cyng Robert Cadwalader drefnu cyfarfod i dderbyn cyngor cyfreithiol er mwyn ymateb i'r Cyngor Sir.

12-10/17 Torri gwair yn y dref

Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, nodwyd y byddai Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Mis Tachwedd o'r Cyngor Tref i drafod dyfodol torri gwair yn y dref. Roedd y Clerc wedi sgwennu i ofyn am y wybodaeth briodol er mwyn trafod yr opsiynau yn y cyfarfod nesaf ac i gael eglurder ar beth fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ad-dalu y Cyngor Tref pe byddai'r Cyngor yn cymeryd cyfrifoldeb am y torri gwair ar gyfer ardaloedd priodol yn y dref.

13-10/17 Goleuadau Nadolig

Nodwyd bod y Clerc wedi cadarnhau penderfyniad y Cyngor gyda'r trydanydd i ymestyn y goleuadau yn y dref ar gyfer Nadolig 2017.

14-10/17: Parcio yng Nghriccieth

Yn y cyfarfod diwethaf codwyd y mater o ddiffyg defnydd o'r meysydd parcio yng Nghriccieth – yn enwedig y cam barcio o gwmpas Dylan's ar y Prom. a phenderfynwyd ysgrifennu at Bennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn am yr hawl i osod arwydd ar gyfer y parcio, gan nodi y byddai'r Cyngor Tref yn fodlon talu am y gôst o wneud hyn. Roedd y Cadeirydd, Robert Cadwalader a'r Clerc wedi cwrdd gyda Swyddog cyfrifol Cyngor Gwynedd sydd wedi cytuno i rhoi arwyddion o'r ffordd fawr ar gyfer maes Parcio ger Dylan's a'r maes parcio tu cefn i'r Stryd Fawr. Byddai'r gwaith yma yn cymeryd lle ym Mis Tachwedd.

15-10/17 Torri Coed yng Nghriccieth

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod y Cyngor yn bryderus am sefyllfa torri coed yng Nghriccieth a chytunwyd y dylid cysylltu gydag arbennigwr Cyngor Gwynedd er mwyn cael trafodaeth am strategaethau posib er mwyn gwella'r sefyllfa, drwy gydweithio rhwng y Cynghorau ac i drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Ers hynny hefyd roedd mater y torri coed ger y Feddygfa wedi achosi rhagor o bryder. Roedd y Clerc wedi sgwennu at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd ac wedi cael ymateb gan Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth i ddweud nad oedd Swyddog Coed penodol ac mai y Tîm Bioamrywiaeth oedd bellach yn delio gyda materion coed. Ei prif ddull o warchod coed yw drwy y broses Gorchymyn Gwarchod Coed (TPO) a nodwyd bod sawl un yng Nghriccieth ynghyd ac Ardal Gadwraeth. Roedd y torri coed diweddar yng Nghriccieth yn bryder i'r Tîm hefyd ac mae'r swyddog yn hapus iawn i gyfarfod aelodau o'r Cyngor a'r Clerc i drafod y mater yma ymhellach.

Penderfyniad: y Cyng Sian Williams i drefnu cyfarfod gydag Arweinydd y Tîm Bioamrywiaeth

16-10/17: Llwybr o Benaber i'r parc

Gwaith wedi ei gwblhau ar y stepiau gan Cyngor Gwynedd.

17-10/17 Llwybrau Cyhoeddus

Nid oedd rhagor o wybodath ar gyfer cwblhau y gwaith wedi do di law gan Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdeistref Cyngor Gwynedd.

18-10/17: Derbyniadau

AON UK Ltd – ad-daliad cost yswiriant £72.86

19-10/17: Taliadau

| | |
|---|--------------------------|
| • Cyllid y Wlad (PAYE) | £126.60 Siec 101087 |
| • Cyflog y Clerc | £506.69 Siec 101088 |
| • Costau Swyddfa Clerc | ...£283.33 Siec 101089 |
| • Swyddfa Archwilio Cymru | £223.05 Siec 101090 |
| • Swyddfa Bost Criccieth (Stampiau) |£84.60 Siec 101091 |
| • Cyngor Gwynedd (Costau Etholiad Mai 2017) | ...£143.00 Siec 101092 |
| • Atkin Groundworks Ltd (Torri gwellt Capel Pen y Maes) |£156.00 Siec 101093 |
| • Gwasg Cymru (Taflenni a Holiaduron Diwrnod Cymunedol) |£182.00 Siec 101094 |
| • Anni Llŷn (Adloniant Plant Diwrnod Cymunedol) |£300.00 Siec 101095 |
| • RBL Poppy Appeal |£17.00 Siec 101096 |
| • Kaleidescope (Paent Cysgodfanau) |£610.47 Siec 101097 |
| • PE Catering (Lluniaeth Diwrnod Cymunedol) |£500.00 Siec 101098 |
| • Costau Cyng Robert Cadwalader (Diwrnod Cymunedol) |£167.29 Siec 101099 |
| • Costau Cyng Phil Jones (Diwrnod Cymunedol) |£89.99 Siec 101100 |

Rhoddyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Fercher 15 Tachwedd 2017**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 6 Tachwedd 2017****